# <u>Cyngor Cymuned Llanycil</u>

Cyfarfu'r Cyngor nos Fawrth, Hydref 8fed 2024 am 8.00 o'r gloch yn Neuadd Parc. Yn bresennol oedd Huw Charles (cadeirydd), Euros Puw, Arwel Davies, Geraint Jones, Rhys Jones, Gwynfryn Williams a Huw Edwards.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Catrin Roberts, Rhys Richards a'r Cyng. Elwyn Edwards.

**i) Darllenwyd cofnodion cyfarfod mis Medi a chafwyd yn gywir.**

**<u>ii) Datgan Buddiant.</u>**
Ni chofnodwyd unrhyw fuddiant.

**<u>iii) Materion yn codi o'r cyfarfod diwethaf.</u>**

<u>a) Ymateb Cyngor Gwynedd i'r cwynion o'r cyfarfod diwethaf.</u>
i) Roedd cyfarwyddwyd wedi mynd i'r gweithlu i wneud gwaith ffosio ac ochri o'r gyffordd tuag at Pant Neuadd, Parc.
ii) Roedd yr Arolygwr Priffyrdd wedi asesu'r tyllau yn y ffordd rhwng Llwyn Mawr Uchaf a Cyffdy, Parc ac am gadw golwg ar y safle am y tro.

**<u>iv) Gohebiaeth.</u>**

Derbyniwyd yr ohebiaeth ganlynol:-

<u>a) Cyngor Gwynedd.</u>
i) Rhaglen Waith yr Adran Priffyrdd
ii) Adolygiad Dosbarthau a Mannau Pleidleisio.
iii) Rhybudd gwaharddiad trafnidiaeth trwodd dros dro, Rhyduchaf 14/10/24.

<u>b) Amrywiol.</u>
i) Groundwork Gogledd Cymru – grantiau cymunedol. Gofynnwyd i'r clerc i ddosbarthu'r wybodaeth gyda'r neuaddau lleol.
ii) Llywodraeth Cymru – Deddf Seilwaith (Cymru) 2024 – cyhoeddi papur ymgynghori.

**<u>v) Ceisiadau Cynllunio.</u>**
Ni chyflwynwyd unrhyw geisiadau cynllunio.

**<u>vi) Materion Ariannol</u>**
<u>a) Adroddiad Ariannol (monitro derbyniadau a thaliadau).</u>
Cyflwynodd y clerc yr adroddiad ariannol i ddiwedd Medi a chafwyd yn gywir.

<u>b) Taliadau.</u>
Cytunwyd i dalu –
i) Cyflog a chostau'r clerc (Gorff-Medi)
ii) TWE

**<u>vii) Unrhyw Fater Arall.</u>**

<u>a) Gofynnwyd i'r clerc basio'r mater canlynol ymlaen i Gyngor Gwynedd:-</u>
i) Gwrych yn gordyfu i'r ffordd rhwng Llidiardau Mawr a festri'r Capel.

<u>b) Diffibriliwyr.</u>
Trafodwyd y posibilrwydd na fyddai'r padiau a'r batris yn cael eu cyflenwi am ddim o hyn ymlaen. Cytunwyd i wneud ymholiadau pellach ac ychwanegu arian i'r gyllideb os bydd angen.

## Cynhelir y Cyfarfod nesaf ar Nos Fawrth, Tachwedd 12fed am 8.00 y.h. yn Neuadd Parc.